| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **17 TACHWEDD 2011** |
| TEITL YR ADRODDIAD: | **RHAGLEN GYFALAF 2011/12 - ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (30 MEDI 2011)** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **ARGYMELL I FWRDD Y CYNGOR GYMERADWYO'R ARIANNU ADDASEDIG** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| ARWEINYDD PORTFFOLIO: | **CYNGHORYDD SIÂN GWENLLÏAN** |

## CRYNODEB

Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 5 rhan:

Rhan 1: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £93m am y 3 blynedd 2011/12 – 2013/14.

Rhan 2: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £4.3m ers yr adolygiad chwarter cyntaf, gyda'r mwyafrif o'r cynnydd oherwydd benthyca uwch i ariannu cynlluniau o'r Rhaglen Fuddsoddi i Uwchraddio Ysgolion.

Bwrdd y Cyngor sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2), felly gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio argymell yn briodol i'r Bwrdd.

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

Rhan 3: Llithriadau o 2011/12 i 2012/13.

Rhan 4: Gwariant 6 mis cyntaf 2011/12.

Rhan 5: Proffiliau gwariant.

## BARN

Mae 2 prif gasgliad yn codi o'r adolygiad ail chwarter, sef:-

- Fod y gwir wariant hyd at 30/09/11 ddim ond 28% o'r gyllideb, o'i gymharu â 34% yn yr hanner blwyddyn cyffelyb y llynedd (gweler 4.2 isod).
- Fod cymaint â £19.4m am lithro o 2011/12 i 2012/13. Mae'n gam positif fod hynny eisoes wedi'i adnabod erbyn yr ail chwarter, ond gallasai'r llithriad gael effaith ar wasanaethau (gweler 3.4 isod).

# 1 RHAGLEN GYFALAF 2011/12 i 2013/14

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Medi yn erbyn y sefyllfa ddiwedd Mehefin:

## CYMHARIAETH MEWN SYMUDIAD O'R ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF A'R SEFYLLFA AIL CHWARTER

| CRYNODEB | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | CYNNYDD / |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | CYFANSWM | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | CYFANSWM | (LLEIHAD) |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau Dynol | 659 | 0 | 0 | 659 | 235 | 424 | 0 | 659 | 0 |
| Addysg | 13,403 | 7,235 | 2,350 | 22,988 | 7,971 | 14,182 | 3,048 | 25,201 | 2,213 |
| Asiantaeth Cefnffyrdd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid | 60 | 0 | 0 | 60 | 0 | 60 | 0 | 60 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 761 | 0 | 0 | 761 | 599 | 301 | 0 | 900 | 139 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 6,393 | 5,903 | 2,297 | 14,593 | 5,894 | 7,356 | 2,492 | 15,742 | 1,149 |
| Gofal Cwsmer | 8,409 | 1,302 | 0 | 9,711 | 6,802 | 2,546 | 0 | 9,348 | (363) |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,471 | 0 | 0 | 3,471 | 3,087 | 325 | 0 | 3,412 | (59) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6,816 | 2,038 | 0 | 8,854 | 7,192 | 2,649 | 10 | 9,851 | 997 |
| Rheoleiddio | 11,250 | 9,579 | 6,307 | 27,136 | 8,957 | 11,500 | 6,307 | 26,764 | (372) |
| Strategol a Gwella | 5 | 0 | 0 | 5 | 5 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| Tai Cyngor | 63 | 0 | 0 | 63 | 63 | 0 | 0 | 63 | 0 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 352 | 0 | 0 | 352 | 242 | 119 | 0 | 361 | 9 |
| Corfforaethol | 16 | 0 | 0 | 16 | 2 | 601 | 0 | 603 | 587 |
| **CYFANSWM** | **51,658** | **26,057** | **10,954** | **88,669** | **41,049** | **40,063** | **11,857** | **92,969** | **4,300** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cyllideb y rhaglen gyfalaf tair blynedd yn dangos cynnydd o £4,300,000 ers y sefyllfa chwarter cyntaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu ar gyfer hyn:

| CRYNODEB | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | CYNNYDD/ (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 £000 | 2012/13 £000 | 2013/14 £000 | 2011/12 £'000 | 2012/13 £'000 | 2013/14 £000 | £000 |
| **Ffynhonnell:** | | | | | | | |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 5,443 | 0 | 0 | 5,443 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 6,131 | 3,317 | 694 | 4,492 | 6,548 | 875 | 1,773 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 20,917 | 18,761 | 10,181 | 18,209 | 21,952 | 10,917 | 1,219 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 4,408 | 0 | 0 | 4,144 | 175 | 0 | (89) |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 3,828 | 25 | 0 | 4,441 | 447 | 10 | 1,045 |
| Cronfa Cyfalaf | 8,155 | 3,740 | 0 | 1,345 | 10,550 | 0 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 2,776 | 214 | 79 | 2,975 | 391 | 55 | 352 |
| **CYFANSWM** | **51,658** | **26,057** | **10,954** | **41,049** | **40,063** | **11,857** | **4,300** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **88,669** | | | **92,969** | |

**2.2 Benthyca Heb Gefnogaeth**
Ceir cynnydd net o £1,773,000 yn y defnydd o fenthyca i ariannu cynlluniau, yn bennaf oherwydd cynllun Ysgol Ardal Dwyrain Dolgellau (Adran Addysg) sydd yn gyfanswm o £1,800,000 dros y tair blynedd. Cymeradwywyd y cynllun yma gan y Bwrdd 26/7/11 fel rhan o'r Rhaglen Fuddsoddi i Uwchraddio Ysgolion.

**2.3 Grantiau a Chyfraniadau**
Ceir cynnydd net o £1,219,000 yn y Grantiau a Chyfraniadau dros y rhaglen, yn bennaf oherwydd-

2.3.1 **Cynllun Gwella Trefi (Adran Economi a Chymuned), cynnydd o £500,000 yn 2011/12, a £500,000 yn 2012/13 (cyfanswm o £1,000,000).**
Derbyniwyd grant dros ddwy flynedd gan Lywodraeth Cymru o raglen Môn Menai ar gyfer gwella trefi, yn benodol Canol Tref Bangor, Canol Tref Caernarfon ac Ardal y Lechen (Arfon).

2.3.2 **Cynlluniau Trafnidiaeth Gwyrdd (Adran Rheoleiddio) cynnydd o £305,000 yn 2011/12.**
Dyrannwyd grant ychwanegol gan y Llywodraeth o'r rhaglen 'STA' (Sustainable Travel Activities) sydd yn rhoddi cyfanswm i Wynedd o £1,000,000.

**2.4 Derbyniadau Cyfalaf**
Mae yna leihad net o £89,000 yn y defnydd o Dderbyniadau Cyfalaf, yn bennaf yn sgil addasiadau gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol -

- trosglwyddiad mewnol o (£140,000) am uned ddiwydiannol yng Nghibyn rhwng yr Adran Economi a Chymuned a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, yn hytrach na derbyniad drwy werthiant allanol.
- ceir hefyd ddefnydd uwch o £50,000 at gynllun Storfa Halen Gogledd Meirionnydd.

**2.5 Cyfraniad Refeniw i Wariant Cyfalaf**

Ceir cynnydd net o £1,045,000 yn y rhaglen gyfalaf gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol oherwydd –

- cynllun allyriadau Amlosgfa Bangor £496,610 yn 2011/12 - addasiad rhwng ffynonellau ariannol (gweler hefyd Cronfeydd Eraill isod),
- cynllun Lagŵn Llwyn Isaf £136,000 yn 2011/12 a £100,000 yn 2012/13 (gweler isod),
- cynlluniau Atgyweirio Ffyrdd Sirol £200,000 yn 2011/12, a
- cynllun uwchraddio toiled maes adloniant Tywyn £30,000 yn 2011/12 a £36,000 yn 2012/13.

Bu problemau gyda'r cynllun lagŵn yn Llwyn Isaf sydd wedi arwain at oediad yn y cynllun, oherwydd y tywydd a materion bioamrywiaeth. Gwelir costau uwch o £136k yn 2011/12, o ganlyniad i'r tendr fod yn uwch a hawliad gan y contractwr am yr oediad. Mae problem bellach wedi codi gyda'r safle ei hun (mawn wedi ei ddarganfod) sydd yn golygu fod angen symud y lleoliad, gan greu costau uwch eto (amcangyfrif £100,000 yn 2012/13). Mae'r Adran yn bwriadu ceisio hawlio costau'r cynllun yma yn erbyn grant y cynllun GwyriAD, ond nid oes sicrwydd y byddant yn llwyddiannus. Felly, ariennir y costau yma drwy gyfraniadau refeniw uwch ar hyn o bryd.

**2.6 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill**

Mae'r cynnydd o £352,000 yn y defnydd o'r ffynhonnell yma o ariannu, yn bennaf oherwydd –

- prosiectau Rheoli Carbon £541,000 (Adran Gofal Cwsmer),
- cynlluniau cyfalaf Cynnal a Chadw £400,000 (Adran Gofal Cwsmer), a
- cynllun allyriadau Amlosgfa Bangor (£445,400) (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – gweler 2.5 uchod.

**2.7 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio argymell i'r Bwrdd dderbyn y rhaglen ddiwygiedig 2011/12 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 2.2 i 2.6 uchod).** Cyflwynir gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

## 3 LLITHRIAD i 2012/13

**3.1** Cyfanswm y lefel llithriadau yn y rhaglen gyfalaf o 2011/12 i 2012/13 hyd yma yw £19,446,230. Mae'r ffigyrau yn rhan 1 o'r adroddiad yn adlewyrchu hyn, gyda'r prif eitemau fel a ganlyn –

Cynlluniau wedi'u hariannu o adnoddau'r Cyngor:-

- Newid dosbarthiadau dros dro (Adran Addysg) - £4,756,910
- Ysgol Ardal Bro Dysynni (Adran Addysg) - £2,011,000
- Cynlluniau Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - £1,618,610
- Osgoi ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau (Adran Gofal Cwsmer) - £1,101,800
- Bloc Technegol Ysgol Syr Huw (Adran Addysg) - £817,600
- Dwy Uned yn lle ysgol Coed Menai (Adran Addysg) - £790,000
- Strategaeth addasiadau anabl ysgolion (Adran Addysg) - £512,810
- System technoleg gwybodaeth 'EDRMS' (Electronic Document and Records Management System), sef system gorfforaethol i reoli a phrosesu dogfennau (Adran Gofal Cwsmer) - £463,200
- Adnewyddu ffensys diogelwch (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - £313,260
- Addasu Siambr Dafydd Orwig (Adran Gofal Cwsmer) - £302,700
- Ail-leoli Llyfrgell Bala (Adran Gofal Cwsmer) - £200,000

Cynlluniau wedi'u hariannu (yn rhannol) drwy grantiau penodol:-

- Pont Briwet (Adran Rheoleiddio) - £1,920,880
- Academi Hwylio Pwllheli (Adran Economi a Chymuned) - £713,550

**3.2** Ni fydd y llithriadau uchod yn golygu colled mewn grant.

**3.3** Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r llithriadau mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

**3.4** Mewn amgylchiadau ble bu llithriadau sylweddol, disgwylir i'r adrannau perthnasol (ynghyd â'r Adran Strategol a Gwella) adrodd yn briodol i'w Pwyllgor Craffu perthnasol, gan nodi'r effaith ar wasanaethau a ddarperir gan yr Adran berthnasol.

## 4 GWARIANT CYFALAF 6 MIS CYNTAF 2011/12

**4.1** Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa gwir wariant cyfalaf erbyn diwedd yr ail chwarter gyferbyn â'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2011/12 -

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LLAWN (adolygwyd Medi) 2011/12 £'000 | GWIR WARIANT Y 6 MIS HYD AT 30/09/2011 £'000 |
|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 235 | 28 |
| Addysg | 7,971 | 3,069 |
| Cyllid | 0 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 599 | 274 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 5,894 | 638 |
| Gofal Cwsmer | 6,802 | 2,288 |
| Gwasanaeth Cymdeithasol a Thai | 3,087 | 1,276 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 7,192 | 1,503 |
| Rheoleiddio | 8,957 | 2,304 |
| Strategol a Gwella | 5 | 1 |
| Tai Cyngor | 63 | 3 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 242 | 213 |
| Corfforaethol | 2 | 1 |
| **CYFANSWM** | **41,049** | **11,598** |

**4.2** Mae dros £11.5m wedi ei wario yn ystod y chwe mis cyntaf, sef 28% o'r gyllideb.

| CRYNODEB | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI 2011/12 | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI 2010/11 | (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Blwyddyn Gyfan | £41.0miliwn | £42.8miliwn | (£1.8miliwn) |
| Gwariant y 6 mis cyntaf | £11.6miliwn | £14.6miliwn | (£3.0miliwn) |
| Gwariant fel canran o'r gyllideb | 28% | 34% | (6%) |

**4.3** Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni yn is na'r gyfran gyfatebol llynedd. Er fod gwerth dros £19miliwn o lithriad wedi ei adnabod yn barod, fe all y proffil gwario eleni fod yn arwydd fod potensial am fwy o lithriad yn codi yn y rhaglen erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**4.4** Er hynny, roedd gwariant yn ystod yr ail chwarter eleni yn fwy calonogol, sef 22% o'i gymharu â 19% llynedd. Golyga hyn fod yr Adrannau sy'n gwario wedi dal i fyny rhywfaint yn ystod ail chwarter 2011/12, yn dilyn chwarter gyntaf araf.

## 5 PROFFILIAU GWARIANT

**5.1** Yn anffodus, eleni ni chyflwynwyd y mwyafrif o'r proffiliau gwariant tan fis Medi. Felly, byddai cymhariaeth gwariant yn erbyn y proffiliau yn ddibwrpas ar y pwynt yma. Bwriedir cyflwyno'r cymariaethau yn yr adroddiad trydydd chwarter.